Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Pentre Bach

**Canolfan Integredig i Blant Cwm Golau**

**Heol Dyffryn**

**Pentre Bach**

**Merthyr Tydfil**

**CF48 4BJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Mr Nicholas Jones**

**Arolygydd cofnodol o dan gontract i Estyn**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Pentre Bach yn leoliad gyfrwng Gymraeg sydd wedi'i lleoli yng nghanolfan integredig i blant Cwm Golau, Pentre Bach, Merthyr Tydfil. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn lleol. Cydnabyddir bod yr ardal dan anfantais gymdeithasol ac economaidd.

Mae'r cylch wedi bod yn y lleoliad hwn ers 2005 a chanddo ddefnydd cyfan gwbl o'r cyfleusterau mewn un ystafell fawr ac ardaloedd chwarae allanol y ganolfan. Darperir cyfleusterau hongian cotiau a hysbysfwrdd sy'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am y cylch, gan gynnwys gweithgareddau'r wythnos. Ceir cyfleusterau toiled a golchi dwylo cyfleus ar gyfer y plant a'r staff.

Mae'r ystafell fawr wedi'i haddurno'n lliwgar gydag arddangosfeydd ar y wal sy'n darparu'r plant ag amgylchedd dysgu deniadol iawn. Caiff ei wahaniaethau'n briodol i ardaloedd o weithgareddau sydd wedi'u trefnu'n dda gydag adnoddau ar gyfer datblygu'r deilliannau a nodir yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant or oedran yma. Ceir cegin fach yn yr ystafell sydd ag adnoddau da lle caiff byrbrydau eu paratoi. Tu allan, ceir ardal ddiogel a defnyddiol iawn sydd ag adnoddau da iawn. Mae'r ardal hon yn hygyrch i'r plant sy'n galluogi y gellir cynnal gweithgareddau tywod a dŵr, garddio, peintio a gwneud marciau yno. Mae gan y cylch fynediad hefyd i gyfleusterau allanol y ganolfan sy'n cynnwys offer da iawn ac ardaloedd archwilio.

Dywed y cylch fod bron pob un o'r plant yn dod o gefndiroedd Saesneg eu hiaith ac yn mynychu'r cylch er mwyn elwa o'r addysg gyfrwng Gymraeg cyn bod bron pob un yn mynychu'r ysgolion Cymraeg lleol. Mae'r cylch yn cynrychioli'r ystod lawn o alluoedd ac yn derbyn plant ag anghenion arbennig. Nid oes yr un plentyn yn y grŵp cyfredol wedi'i nodi ag anghenion tebyg, ond mae'r cylch yn y gorffennol wedi derbyn cefnogaeth wrth asiantaethau eraill. Nid oes plentyn ar hyn o bryd o gefndir ethnig lleiafrifol a daw ychydig o'r plant o gartrefi sydd o dan anfantais gymdeithasol. Mae'r cylch yn derbyn plant o ddwy flwydd oed ac yn cael eu hariannu y tymor ar ôl eu trydydd penblwydd. Maent yn mynychu'r ysgolion Cymraeg lleol o dair blwydd oed ymlaen, yn dibynnu ar eu penblwydd a dewis eu rhieni. Yn ystod yr arolwg roedd chwech plentyn tair blwydd oed yn y cylch ar y ddau brynhawn.

Mae'r cylch yn cael ei arwain a'i rheoli gan arweinydd profiadol iawn sydd â chymwysterau addas. Mae'n cael eu helpu gan bedwar aelod parhaol a dau gwirfoddolwr. Mae'r cylch yn elwa o gefnogaeth wrth Fudiad Ysgolion Meithrin, yr awdurdod lleol a'r gymuned. Mae'r cylch hefyd yn ymdrechu i godi arian. Canlyniad hyn oll yw adnoddau da iawn ar gyfer y plant. Mae'r staff yn siarad Cymraeg gyda'r plant yn gyson ac yn mynychu amrywiaeth dda o gyrsiau hyfforddi.

Ceir llyfryn llawn gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr sy'n eu darparu â manylion y cylch. Daw rhieni a gofalwyr â'u plant i mewn i'r cylch bob prynhawn sy'n gyfle i gael cyfarfod â'r staff. Mae'r plant yn awyddus i fynd i'r afael â'r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Mae'r cylch ar agor am bum prynhawn yr wythnos rhwng 12.30 y prynhawn a 3 o'r gloch a thri bore ac wedi'i gofrestru gyda'r Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru am 26 o blant. Mae'n darparu'r plant ag

amgylchedd diogel lle caiff y plant eu goruchwylio bob amser. Cefnogir y cylch gan Fudiad Ysgolion Meithrin ac mae wedi mabwysiadau ei bolisïau a'u haddasu yn ôl yr angen lle'n briodol. Darparwyd cefnogaeth werthfawr a chymorth hefyd gan Bartneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar awdurdod lleol Merthyr Tydfil. Mae'r cylch yn elwa'n fawr hefyd o'r cysylltiad agos â'r ysgolion Cymraeg lleol. Mae'r pwyllgor rheoli'r cylch yn arolygu gwaith y cylch yn gyson. Ymdrinir â hunan arfarnu yn reolaidd a gosodwyd targedau perthnasol yn y gorffennol a'u cyflawni. Mae'r targedau cyfredol ar gyfer gwella yn briodol.

Arolygwyd y cylch diwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Medi 2010 a chafodd tystysgrif 'Cylch Rhagorol' ym mis Tachwedd 2006. Nid yw'r cylch wedi ei arolygu gan Estyn o'r blaen.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r holl blant yn dangos cynnydd ac yn cyflawni'n dda ymhob maes dysgu;
- mae bron pob un plentyn yn mwynhau dysgu ac mae ganddynt agweddau positif at ddysgu;
- mae bron pob un plentyn yn ymddwyn yn gyfrifol;
- ar y cyfan, mae'r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n dda;
- mae'r holl blant yn cael eu cefnogi'n dda ac yn elwa o gwricwlwm sy'n eang, cytbwys a diddorol;
- mae'r addysgu'n effeithiol ac yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen;
- mae adnoddau da iawn ar gael, sy'n cynnwys ardal tu allan;
- mae'r oedolion yn siarad Cymraeg yn dda sy'n cael effaith gadarnhaol ar sut mae'r plant yn dysgu'r iaith;
- mae'r lleoliad yn cael ei harwain a'i rheoli'n dda;
- mae perthynas dda rhwng oedolion a phlant;
- mae cysylltiadau da gyda'r ysgolion Cymraeg lleol; ac
- mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol iawn ac mae pob un yn cyfrannu'n bwrpasol i lwyddiant y lleoliad.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r arweinyddiaeth a'r staff yn darparu cyfeiriad clir i waith y lleoliad;
- dengys newidiadau a datblygiadau dros amser fod gan y lleoliad gofnod da o wella er lles y plant;
- mae'r arweinyddiaeth yn hunanarfarnol gyda thargedau clir a chynllun datblygu blynyddol pwrpasol ar gyfer gwella;
- mae gan yr holl staff agwedd gadarnhaol a gweithredol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant staff;
- mae llinellau cymorth da yn cael eu defnyddio'n rheolaidd; ac
- mae'r amgylchedd dysgu'n ysgogol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r lleoliad:

A1 ymestyn y system sefydlog o gynllunio i sicrhau bod gweithgareddau dyddiol yn cael eu cynllunio'n fwy manwl a bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'u gofynion;

A2 gosod amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant clir i'r plant ar ddechrau pob gweithgaredd; a

A3 sicrhau bod asesiadau dyddiol a chadw cofnodion yn cael eu cwblhau'n gyson ac eu bod nhw'n arwain yn uniongyrchol at dargedau'r plant.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud y cynnydd priodol ymhob maes dysgu. 'Does dim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng safonau grwpiau gwahanol o blant yn y lleoliad.

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd positif yn eu datblygiad o'u medrau llythrennedd yn yr iaith Gymraeg. Tra bod rhai plant yn anfodlon i ddefnyddio'r iaith ar adegau, mae'r mwyafrif â dealltwriaeth dda o'r iaith. Mae gan bron pob un o'r plant fedrau gwrando sydd wedi'u datblygu'n dda. Mae bron pob un plentyn yn mwynhau clywed stori ac yn awyddus i gyfrannu i'r hyn a ddarllenir iddynt.

Maent i gyd yn ateb cwestiynau yn frwdfrydig sy'n dangos yn glir eu dealltwriaeth ddatblygol o'r iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn synhwyrol i drafodaethau grŵp ac yn gwybod beth yw'r dydd a'r tywydd. Nodwedd dda arall o'u gallu cynyddol yw'r ffaith iddynt ymateb yn y Gymraeg gydag ychydig iawn o anogaeth i liwiau a rhifau.

Mae llawer o blant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol.  Maent yn dal llyfrau yn briodol ac yn astudio lluniau a phrint gyda diddordeb.  Maent yn adnabod prif gymeriadau mewn stori ac yn trafod cynnwys y stori yn frwdfrydig gyda'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu a nodwedd nodedig o'u hysgrifennu cynnar yw eu bod yn deall pwrpas ysgrifennu drwy dasgau ymarferol.  Maent felly yn gweld pwrpas i wneud marciau a'u hysgrifen gynnar.  Mae lleiafrif o blant yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor yn annibynnol ac mewn ffurf eithaf adnabyddus.

Mae'r holl blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda drwy ddefnydd ymarferol o rif, drwy ddefnyddio geirfa fathemategol fel 'llai na' neu 'fwy na' a thrwy ddefnyddio siapiau dau a thri dimensiwn.  Mae'r holl blant yn medru grwpio gwrthrychau yn ôl lliw neu siâp.

Mae'r holl blant yn defnyddio offer electronig yn dda iawn.  Maent yn defnyddio camerâu digidol ar gyfer cofnodi ac yn defnyddio cyfrifiadur a'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn hyderus wrth reoli'r cyfarpar priodol.  Mae'r holl blant yn mwynhau cymryd rhan mewn creu cerddoriaeth a dawnsio.  Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o stôr o ganeuon a hwiangerddi Cymreig gan eu canu gyda brwdfrydedd.

Mae bron pob un plentyn yn dangos diddordeb llawn ym mhob gweithgaredd ac yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser.  Maent yn gwneud penderfyniadau a gweithio'n annibynnol yn dda tu fewn yr adeilad ac yn yr ardal allanol.  Mae'r plant yn ymgymryd yn frwdfrydig i'r ystod eang o weithgareddau a ddarperir ar eu cyfer ac felly'n datblygu eu medrau creadigol a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas yn llwyddiannus.

**Lles:  Da**

Mae gan y plant ddealltwriaeth briodol yn unol â'u hoedran o sut gallant gadw'n iach. Gwyddant, er enghraifft, pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo gan wneud hyn heb fawr o ymyrraeth.  Mae gan y rhan fwyaf o'r plant ddealltwriaeth da bod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau ac maent yn eu prynu'n wythnosol o siop symudol.

Mae agwedd bron pob un plentyn at eu dysgu yn dda.  Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn y gweithgareddau a chynllunnir ar eu cyfer.  Mae bron pob un plentyn yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau arwyddocaol o amser ac yn gwneud penderfyniadau yn annibynnol.

Mae'r holl blant yn uniaethu â'i gilydd ac oedolion ac ymwelwyr yn dda iawn.  Maen nhw'n gwrtais ac yn ystyriol ac yn barod iawn i rannu adnoddau.  Mae'r holl blant yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gweithgareddau'r cylch trwy gynnig syniadau a heriau i'r oedolion.  Cânt gyfleoedd gwerthfawr i awgrymu eu syniadau eu hun ac mae'r rhain, lle'n bosibl, yn cael eu cynnwys yn nhasgau a gweithgareddau'r plant.

Mae'r cysylltiadau â'r gymuned yn tynnu sylw'r plant at bobl fel diffoddwyr tân a'r heddlu a phobl eraill sy'n edrych ar eu hôl.  Drwyddi draw, mae'r holl blant yn dangos synnwyr o berthyn i'w cymuned, lle maent yn ymweld ag yn gyson.  Maen nhw'n hapus ac yn derbyn gofal da sy'n rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n dda yn yr hir dymor i ddiwallu athroniaeth cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i gyflawni'r deilliannau a nodir yn nysgu'r plant. Trwy'r cynllunio canolig, mae'r cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant ac yn cynnwys cyfleoedd da ar gyfer datblygiad medrau ar draws y cwricwlwm. Gosodir amser i'r holl staff gyfarfod i gynllunio`r cwricwlwm sy'n darparu'r plant â gweithgareddau defnyddiol a diddorol. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg ac yn gysylltiedig â diddordebau'r plant. Fodd bynnag, 'dydy'r gweithgareddau dyddiol ddim yn cael eu cynllunio'n ddigon manwl a 'dydy'r staff ddim digon ymwybodol o'u gofynion.

Caiff cyfleoedd gwerthfawr eu cynnwys yng ngwaith dyddiol y cylch er mwyn i'r plant ddatblygu eu hunan hyder ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Er bod gweithgareddau penodol wedi'u cynllunio, mae gan y plant y rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hun. Mae hyn yn agwedd gref o'r ddarpariaeth.

Mae'r ddarpariaeth bwrpasol yn cynnwys cyfleoedd i'r holl blant ddatblygu parch at ei gilydd; cyfleoedd i ffurfio perthynas dda a'i gilydd ac oedolion; a chyfleoedd iddynt fod yn oddefgar o'i gilydd.

Darperir gweithgareddau o safon uchel i'r plant i ddatblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol o lythrennedd, rhifedd, dealltwriaeth o'r byd a medrau corfforol a chreadigol. Nodwedd ac agwedd dda iawn o brofiadau dysgu'r plant yw'r ddarpariaeth a wneir i'r plant i ddysgu'r iaith Gymraeg. Cymraeg yw iaith naturiol y cyfathrebu rhwng yr oedolion a'r plant. Trwy'r cyfleoedd cydlynus, mae bron pob un plentyn, beth bynnag bo'u cefndir, yn dangos eu bod yn mwynhau siarad yr iaith trwy edrych ar lyfrau stori yn y Gymraeg, gweithgareddau ymarferol a'r tywydd.

Mae gan blant ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau ysgogol fel paratoi bwyd, sy'n canolbwyntio ar fedrau rhifedd, gwyddoniaeth a lles.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru, fel, wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant i ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, fel, drwy astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac arferion eraill fel Diwali. Mae gweithgareddau tebyg yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd ehangach a chodi'u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd eang sy'n briodol i'w hoedran.

Caiff yr holl blant gyfleoedd da iawn i hau hadau ac i ofalu am blanhigion ac felly dechrau deall am dyfiant planhigion a chynaladwyedd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dangos bod gan staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant.

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o'r plant ac mae'r disgwyliadau yma yn cael eu gwireddu yn ymarferol dda. Mae rôl weithredol gan y staff wrth gynllunio'r cwricwlwm a gwneir y defnydd gorau o'u harbenigedd. Fodd bynnag, wrth gyflwyno gweithgaredd, 'does dim digon o gyfeiriadau tuag at amcanion dysgu'r gweithgaredd a'r meini prawf llwyddiant.

Mae'r system o rannu dyletswyddau yn golygu bod gan staff wybodaeth fanwl o nifer fach o blant ac fel canlyniad yn ymwybodol iawn o'u cyflawniadau a'u cynnydd.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan blant a'u cyfeirio gan oedolion tu fewn ac yn yr awyr agored. Mae'r holl blant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion neu weithio'n annibynnol.

Mae'r staff yn modelu iaith yn dda i lefelau datblygiad y plant ac yn defnyddio cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu'r plant. Mae safonau Cymraeg y staff yn dda ac maent yn anelu at godi'u safonau ymhellach drwy gyrsiau priodol. Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchedd ysgogol sy'n sicrhau'n llwyddiannus bod y plant yn cymryd rhan ac yn mwynhau.

Mae'r gweithdrefnau asesu a chofnodi cyflawniadau staff yn cael eu cwblhau'n drwyadl ar y cyfan. Fodd bynnag, 'dydy'r asesiadau dyddiol a chadw cofnodion ddim yn cael eu cwblhau'n gyson a 'dydynt ddim yn arwain yn uniongyrchol at dargedau'r plant. Mae cofnodion o gyflawniadau'r plant ar gael i rieni. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn medru cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu, er bod angen manylu'n ymhellach ar y broses dyddiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y cylch ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda. Mae'r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y cylch. Wrth gyrraedd maen nhw'n dangos synnwyr o ddisgwyliad ac yn awyddus i gymryd rhan. Maen nhw'n ymgymryd yn frwdfrydig â'r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Mae'r cwricwlwm eang, sy'n cynnwys ymwelwyr ac ymweliadau, yn datblygu ac yn ymestyn profiadau'r plant a'u synnwyr o chwilfrydedd.

Mae'r gwaith dilynol yn eu dosbarthiadau yn dangos yr ystod eang o brofiadau sy'n codi o'u gweithgareddau a synnwyr y plant o ryfeddu. Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr i'r cylch yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cymuned yn dda.

Mae darpariaeth gref gan y cylch meithrin ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r plant yn cael profiad o gwricwlwm sydd wedi ei gynllunio'n dda i ymestyn eu synnwyr o chwilfrydedd am y byd maen nhw'n byw ynddo. Mae'r cylch yn uned drefnus lle mae plant yn parchu ei gilydd ac maen nhw, yn eu tro, yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff.

Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch, parch a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir yn cael eu meithrin drwy'r weithgareddau dyddiol ac yn cael eu derbyn yn ddiau. Mae'r plant yn gwybod, deall ac yn derbyn y safonau cymdeithasol o gyd-fyw, rhannu a derbyn barn eraill fel aelodau o gymdeithas. Mae plant unigol, yn eu tro, yn derbyn cyfrifoldebau penodol sy'n datblygu eu hunan barch.

Mae datblygiad diwylliannol y plant yn dda, sy'n cynnwys arferion a thraddodiadau Cymreig ac yn ymestyn i ddiwylliannau eraill wrth i'r plant ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

Mae staff y cylch yn wyliadwrus wrth nodi plant sydd angen cymorth arbenigol. Maent yn gwneud defnydd o gymorth ac arweiniad proffesiynol. Mae gan y cylch bolisi priodol ar gyfer diogelu a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant rheolaidd a phriodol. Ymdrinir y staff yn rheolaidd ag asesiadau risg effeithiol.

Mae'r lleoliad yn ddiogel, lle mae'r drws ar glo a dim ond aelod o staff sy'n ei agor, felly, nid oes neb yn medru dod i mewn na'r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae gofal da yn cael eu cymryd wrth i'r plant gael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr adnabyddus.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unrhyw blentyn sy'n cael ei amau o fod angen cymorth ychwanegol yn cael ei nodi a bod cynnydd yn cael ei fonitro'n agos. Arweinydd y cylch yw'r cydlynydd anghenion addysgol arbennig ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plentyn tebyg.

Defnyddir asiantaethau allanol a darperir cefnogaeth un-yr-un os oes angen. Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw blentyn anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r cylch meithrin, drwy ei gweithgareddau dyddiol a'r agwedd a mabwysiadir gan y staff yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod eu plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei adnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm o ansawdd ysgogol sy'n cael ei gyfoethogi gan ardal allanol da iawn a diddorol.

Mae'r awyrgylch cartrefol a chyfeillgarwch y staff yn sicrhau bod agwedd oddefgar yn treiddio drwy'r lleoliad. Mae'r cylch yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sydd wedi dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae pob plentyn yn mwynhau cyfleoedd cyfartal.

Mae gan staff y cylch cymwysterau a phrofiad da ac mae cymhareb blentyn i oedolyn ffafriol iawn. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau. Mae gan y cylch ddigon o adnoddau i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae hyn yn elfen dda iawn. Mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o annibyniaeth a chyfrifoldeb.

Defnyddir yr amgylchedd lleol ac adnoddau'r lleoliad yn dda iawn ac yn rheolaidd sy'n cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn ac yn cyd-weithio'n dda fel tîm gan rannu gwerthoedd, amcanion a nodau.  Mae`r arweinydd yn cynnwys yr holl staff yn y cynllunio sy'n sicrhau'r defnydd gorau o'u harbenigedd.  Mae'r arweinydd yn cyfrannu'n weithredol drwy roi cyfarwyddiadau clir a synnwyr o bwrpas i waith y cylch.  Ceir yma ethos positif ac ymrwymiad i ddarparu'r profiadau gorau posibl i'r plant.

Mae'r arweinyddiaeth a'r staff yn canolbwyntio'n dda ar anghenion plant ac mae'r cylch yn cyflawni hyn yn ymarferol dda.  Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol sydd wedi effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth.  Ceir cysylltiadau effeithiol gyda rhieni.  Mae'r rhieni yn cael eu hysbysu'n dda o gyflawniad a chynnydd eu plant sy'n eu helpu i gefnogi dysgu eu plant.

Mae strwythur rheoli yn bodoli sydd wedi'i sefydlu'n dda gyda diffiniad clir o ddyletswyddau.  Fodd bynnag, ar adegau, mae'r arweinydd ddim yn dyletswyddo digon o gyfrifoldebau i eraill pan bo eisiau gwneud.  Mae'r rheolwyr yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol ac yn cwrdd â gofynion cyfreithiol yn llawn.

Mae'r cylch wedi rhoi ystyriaeth dda o flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Yn ogystal, mae wedi gwneud defnydd da o gyfleoedd i weithio gyda'r ysgolion Cymraeg lleol i sicrhau cysylltiadau cadarn a defnyddiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r lleoliad yn hunanarfarnol ac wedi nodi meysydd i wella yn ddiweddar a'u gweithredu er lles y plant.  Mae hyn wedi cynnwys creu ardal rhifedd allanol,  gwell cysylltiadau gyda rhieni a newidiadau effeithiol o'r tu fewn fel y bwrdd gwyn rhyngweithiol, sy'n ymestyn profiadau'r plant a datblygu eu hannibyniaeth.

Mae meysydd i wella wedi cael eu nodi a'u blaenoriaethu, gan gynnwys datblygiad pellach o ariannu sy'n canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth.  Mae cynlluniau i'r dyfodol yn canolbwyntio ar ddatblygu lles, hyfforddiant staff a datblygu arsylwi plant.

Mae'r staff wedi gwneud defnydd da iawn o gyfleoedd hyfforddi a phrofiadau dysgu proffesiynol, sy'n cynnwys cymwysterau gradd a chymwysterau galwedigaethol, sy'n cael effaith adeiladol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r rheini, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad llwyr â'r cylch meithrin ac yn gwerthfawrogi'n fawr safonau'r gofal ac

ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi'r polisi drws agored a'r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â'r staff.

Erbyn i'r plant adael y cylch, mae'r rhieni yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg, yn enwedig yn y Gymraeg. Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgolion Cymraeg lleol yn dda.

Mae'r lleoliad yn elwa o'r gefnogaeth a ddarperir gan staff yr awdurdod lleol a'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'r cyngor a'r awgrymiadau wedi bod yn gymorth i ddatblygu'r cylch ac wedi cyfrannu at y safonau uchel cyfredol o ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r staff yn cyd-weithio'n effeithiol. Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd ac fel canlyniad gwneir y mwyaf o arbenigedd unigolion, er bod angen gwella agweddau o'r cynllunio dyddiol.

Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau ac fe'u defnyddir yn dda iawn i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, mae'r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy'n annog annibyniaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae'r cylch yn darparu profiadau da iawn yn yr awyr agored drwy ddefnyddio'n gyson yr ardal tu allan da iawn.

Mae staff a rheolwyr y lleoliad wedi nodi meysydd i wella yn dda ac maent yn ymwybodol sut i symud y lleoliad ymlaen.

Drwyddi draw, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Cafodd naw holiadur eu dychwelyd.  Roedd trafodaethau gyda sampl o rieni yn ystod yr arolygiad yn nodi eu cefnogaeth gref o`r lleoliad.  Roedd pob un o’r rhieni a gofalwyr yn arbennig o fodlon gyda phob agwedd o’r cylch, yn enwedig y gofal a ddarperir, cynnydd eu plant a’u gallu yn yr iaith Gymraeg.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae’r holl blant yn hapus yn y lleoliad.  Mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â’u cyfoedion.  Mae bron pob un ohonynt yn hunan hyderus wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi’n dda a bod ganddynt dasgau diddorol sy’n ennyn eu diddordeb.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nick Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)